# Monitro Barn Busnesau Cymru ynglŷn ag Ailgylchu yn y Gweithle

## Astudiaethau Ebrill 2023 a 2024



Paratowyd ar gyfer:
**Llywodraeth Cymru**

Paratowyd gan:
**Beaufort Research**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Manylion cyswllt

Cysylltiadau'r asiantaeth: Fiona McAllister / Owen Knight

***Arolygon Ailgylchu yn y Gweithle – Ebrill 2023 ac Ebrill 2024 – Adroddiad Cryno***

Hydref 2024

**Beaufort Research**

2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

(029) 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

**www.beaufortresearch.co.uk**

## Telerau'r Contract

Oni chytunir fel arall, erys yr hawlfraint ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon yn eiddo i Beaufort Research Ltd ac ni cheir dyfynnu, cyhoeddi nac atgynhyrchu'r canfyddiadau heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamgyflead y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Wrth gyhoeddi unrhyw ganfyddiadau gyda chymeradwyaeth, rhaid nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2024

Fe wnaed yr ymchwil hon yn unol ag ISO 20252

MRS Evidence Matters™ Company Partner

ISO 20252 SGS

Social Research Association

CYBER ESSENTIALS

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ac amcanion ........ 4

2. Methodoleg ........ 4

3. Canfyddiadau'r ymchwil ........ 6

3.1 Ymddygiad ailgylchu ........ 6

3.2 Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am newidiadau i'r gyfraith ........ 7

3.4 Gwybodusrwydd a pharodrwydd ........ 9

3.5 Ymwybyddiaeth o gyfathrebu a'i effaith ........ 12

Atodiad – Holiadur Ymchwil Ebrill 2024 ........ 13

## 1. Cyflwyniad ac amcanion

Ym mis Ebrill 2024, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl fusnesau, sefydliadau yn y sector cyhoeddus (megis y llywodraeth a'r GIG) ac elusennau yng Nghymru wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy mewn ffordd debyg i'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai. Mae'r gyfraith wedi'i bwriadu i gynyddu swm y gwastraff a ailgylchir yng Nghymru.

Rhoddwyd gorchwyl i Beaufort i archwilio ymwybyddiaeth busnesau a'u hagweddau at y newid deddfwriaethol, cyn ei roi ar waith ym mis Ebrill 2023 ac yn fuan ar ôl ei gyflwyno ym mis Ebrill 2024. Cafodd lefelau dwyn i gof mewn perthynas â'r ymgyrch hysbysebu ac effaith yr ymgyrch hwnnw eu mesur yn yr arolygon hefyd.

## 2. Methodoleg

Cynhaliwyd arolygon dros y ffôn cyn ac ar ôl yr ymgyrch gyda samplau ar wahân o oddeutu 500 o fusnesau bach a chanolig (BBCh) ledled Cymru. Roedd yr arolygon wedi'u strwythuro fel ag i efelychu arolwg Omnibws Busnes Cymru Beaufort[1] o ran y ffordd y cânt eu samplu, gan gynnwys cwotâu a phwysoliad.

Cafodd samplau'r ddau arolwg eu dylunio fel eu bod yn adlewyrchu nodweddion sefydliadau busnes BBCh sydd wedi'u lleoli yng Nghymru o ran mathau o weithgarwch busnes, maint busnesau (o ran nifer y cyflogeion) a gwasgariad daearyddol. Cafodd sefydliadau busnes eu hadnabod trwy berchnogaeth ar linell ffôn busnes.

Diffiniwyd "busnesau" gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (2007) fel a ganlyn:

Tabl 1 – Gweithgareddau Busnes

| Gweithgareddau Busnes sydd wedi'u cynnwys | Categori DDS |
|---|---|
| *Amaethyddiaeth, Pysgota, Mwyngloddio a Chyfleustodau* | A, B, D, E |
| *Gweithgynhyrchu* | C |
| *Adeiladu, Trafnidiaeth/cyfathrebu* | F, H, J (61 yn unig) |
| *Cyfanwerthu a Manwerthu* | G |
| *Cyllid, Eiddo Tiriog/gweithgareddau busnes* | J (62, 63 yn unig), K, L, M, N |
| *Gwestai, Bwytai a gwasanaethau eraill* | I, J (58, 59, 60 yn unig), R, S (95, 96 yn unig) |

Cafodd categorïau O (Gweinyddiaeth gyhoeddus/amddiffyn), P (Addysg), Q (Iechyd/Gwaith Cymdeithasol), S (94 yn unig: Sefydliadau aelodaeth), T (Aelwydydd preifat) ac U (Sefydliadau alldiriogaethol) eu hepgor o'r arolwg, i sicrhau bod y sampl yn cynnwys busnesau yn y sector preifat yn unig i gynnal cysondeb ag Arolwg Omnibws Cymru.

Cafodd BBChau eu diffinio fel busnesau â hyd at 250 o gyflogeion (amser llawn neu ran-amser) yn y lleoliad y cysylltwyd ag ef, ac fe gafodd ymatebwyr cymwys eu diffinio fel y Rheolwr, Perchennog, Rheolwr Gyfarwyddwr neu uwch reolwr arall.

[1] Omnibws Busnes - BeaufortResearch

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am faint busnesau, wedi'u categoreiddio yn ôl trosiant blynyddol fel a ganlyn: llai na £100k, rhwng £101k a £500k, a thros £501k. Roedd hefyd yn categoreiddio busnesau yn seiliedig ar nifer y cyflogeion: un cyflogai, 2-9 cyflogai, a 10 cyflogai neu fwy.

Dewiswyd sampl o fusnesau ar hap gan Market Location[2], cwmni data a marchnata yn y DU sy'n arbenigo mewn darparu data o ansawdd da am fusnesau. Wedyn cysylltwyd ar hap â busnesau ym mhob grŵp gweithgarwch a rhanbarth ac fe gyfwelwyd â hwy nes bod y targedau o ran cwota wedi cael eu cyrraedd. Gosodwyd cwotâu sy'n cydgloi ar weithgarwch a maint busnesau (o ran nifer y cyflogeion) o fewn rhanbarth yn seiliedig ar nifer y busnesau sy'n masnachu'n weithredol yng Nghymru a ddarparwyd gan Market Location.

Mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn yr Atodiad. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr. Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau caeëdig a phenagored (testun rhydd). Yn ystod y cam dadansoddi, cafodd ymatebion i gwestiynau penagored eu codio'n systematig a'u categoreiddio yn ôl themâu, gan ei gwneud yn bosibl cael mesuriad meintiol o'r ymatebion.

Ar gyfer yr arolwg sylfaenol fe gasglwyd cyfanswm o 503 o ymatebion i'r arolwg rhwng 17 a 28 Ebrill 2023; ar gyfer yr arolwg ar ôl yr ymgyrch, cynhaliwyd 502 o arolygon rhwng 15 a 30 Ebrill 2024.

Mae tabliadau data llawn o'r arolwg wedi cael eu darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn adroddiad technegol ar wahân.

[2] Market Location


# 3. Canfyddiadau'r ymchwil

## 3.1 Ymddygiad ailgylchu

Fe wnaeth y cwestiwn cyntaf ganfod a oedd BBChau a arolygwyd yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy oddi wrth eu gwastraff cyffredinol ar adeg yr arolwg.

Ym mis Ebrill 2024, dywedodd bron i 8 ymhob 10 BBCh yng Nghymru (79%) a arolygwyd eu bod yn ailgylchu popeth y gallant (gweler ffigur 1) – cynnydd o oddeutu 6 ymhob 10 (62%) ers mis Ebrill 2023. Dywedodd cyfran gyson o ychydig mwy nag un ymhob deg o'r rhai a arolygwyd (12%) nad oeddent yn ailgylchu o gwbl, serch hynny.

**Ffigur 1: A yw eich busnes neu sefydliad yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy oddi wrth ei wastraff cyffredinol ar hyn o bryd? (%)**




*Sail: yr holl ymatebwyr (Ebrill 2023 = 503, Ebrill 2024 = 502)*

Ym mis Ebrill 2024, roedd sefydliadau mwy, yn ôl trosiant, yn fwy tebygol o ailgylchu popeth posibl, gydag 86% o'r rhai a arolygwyd â throsiant uwch na £500k yn gwneud hynny, o'i gymharu â dim ond 72% o'r rhai â throsiant is na £100k. Gwelwyd tuedd debyg gyda niferoedd cyflogeion: roedd gan fusnesau a arolygwyd â dau gyflogai neu fwy gyfradd ailgylchu uwch (82%) o'i gymharu â'r rhai â dim ond un cyflogai (68%).


Ym mis Ebrill 2024, yr ymatebwyr a oedd leiaf tebygol o ailgylchu popeth posibl ym mis Ebrill 2024 oedd y rhai yn y sectorau *Adeiladu, Trafnidiaeth/cyfathrebu* (64% yn gwneud hynny) ac *Amaethyddiaeth, Pysgota, Mwyngloddio a Chyfleustodau* (76%), a busnesau yn y sectorau *Gweithgynhyrchu* (87%) a *Manwerthu a Chyfanwerthu* (84%) oedd fwyaf tebygol o wneud hynny.

## 3.2 Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am newidiadau i'r gyfraith

Fe gynyddodd ymwybyddiaeth ddigymell o unrhyw newidiadau (a oedd ar ddod) i'r gyfraith ymhlith BBChau Cymru a arolygwyd yn sylweddol o 13% ym mis Ebrill 2023 (cyn yr ymgyrch) i bron 85% ym mis Ebrill 2024 (ar ôl yr ymgyrch).

Gan adlewyrchu hyn, pan gawsant eu harwain ag eglurhad o'r newid yn y gyfraith[3], roedd bron i 9 ymhob 10 (88%) o BBChau a arolygwyd yng Nghymru wedi clywed am y gyfraith newydd ar ailgylchu yn y gweithle ym mis Ebrill 2024 – i fyny o 17% ym mis Ebrill 2023. Dywedodd tair rhan o bump (60%) hefyd eu bod yn 'gwybod cryn dipyn amdani' ar ôl yr ymgyrch (gweler Ffigur 2).

**Ffigur 2: Cyn heddiw, faint oeddech chi'n ei wybod am y gyfraith newydd hon? (pan gawsant eu harwain ag eglurhad) (%)**




*Sail: yr holl ymatebwyr (Ebrill 2023 = 503, Ebrill 2024 = 502)*

Pan gawsant eu harwain ag eglurhad, sefydliadau llai (yn ôl trosiant a nifer y cyflogeion) a arolygwyd oedd leiaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r gyfraith newydd a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2024. Ymhlith busnesau a arolygwyd â throsiant is na £100k, roedd 18% heb glywed amdani, o'i gymharu â 5% o'r rhai a arolygwyd â throsiant uwch na £500k. Hefyd, nid oedd 20% o sefydliadau a arolygwyd â dim ond un cyflogai'n ymwybodol o'r gyfraith, o'i gyferbynnu â 3% o'r rhai â 10 neu fwy o gyflogeion.

Gan adlewyrchu eu harferion ailgylchu, ymatebwyr yn y sectorau *Adeiladu, Trafnidiaeth/Cyfathrebu* ac *Amaethyddiaeth, Pysgota, Mwyngloddio a Chyfleustodau* oedd leiaf tebygol o ddweud eu bod wedi clywed am y gyfraith newydd ac yn teimlo'n wybodus amdani. Dim ond 49% a 46% yn y sectorau hyn, yn y drefn honno, ddywedodd eu bod wedi clywed amdani a'u bod yn gwybod ychydig amdani, o'i gymharu â'r cyfartaledd o 60% ar y cyfan.


---

[3] Yr eglurhad a ddarparwyd: *"Ym mis Ebrill 2024, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl fusnesau, sefydliadau yn y sector cyhoeddus (megis y llywodraeth a'r GIG) ac elusennau yng Nghymru wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy mewn ffordd debyg i'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai. Mae'r gyfraith wedi'i bwriadu i gynyddu swm y gwastraff a ailgylchir yng Nghymru."*

### 3.3 Barn ynglŷn â'r newid yn y gyfraith

Arhosodd cefnogaeth i'r gyfraith newydd yn gymharol gyson dros amser ac ar draws tonnau'r arolwg. Ym mis Ebrill 2024, dywedodd 76% o BBChau a arolygwyd eu bod o blaid y gyfraith, o'i gymharu â 78% a arolygwyd ym mis Ebrill 2023. Fodd bynnag, gostyngodd canran yr ymatebwyr a oedd 'yn gryf o blaid' o 31% ym mis Ebrill 2023 i 23% flwyddyn yn ddiweddarach. Yn gyfatebol, fe wnaeth cyfran yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu gynyddu ychydig, o 12% i 16%.

**Ffigur 3: I ba raddau yr oedd BBChau o blaid, neu'n gwrthwynebu, y gyfraith newydd (%)**




*Sail: yr holl ymatebwyr (Ebrill 2023 = 503, Ebrill 2024 = 502)*

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd o blaid y gyfraith newydd pam eu bod o blaid y gyfraith newydd, ac fe ddarparon nhw ymatebion ar ffurf testun rhydd. Roedd y prif resymau a roddwyd yn ddigymell yn ymwneud â sylwadau cyffredinol am fod yn gefnogol i ailgylchu (a grybwyllwyd gan 32% o'r 382 o BBChau a oedd o blaid y gyfraith newydd) a phryderon amgylcheddol (22%). Dangosir rhestr o'r prif resymau a roddwyd yn ffigur 4 isod:

**Ffigur 4: Prif resymau dros fod o blaid y gyfraith newydd (yn ddigymell)**

| | %[4] |
|---|---|
| Yn gefnogol i ailgylchu (da, y peth iawn i'w wneud, mae popeth yn helpu, mae'n bwysig, a.y.b.) | 32 |
| Pryderon amgylcheddol (mae'n dda i'r amgylchedd, y blaned, yr hinsawdd a.y.b.) | 22 |
| Pwysigrwydd lleihau gwastraff a defnydd o safleoedd tirlenwi | 11 |
| Eisoes yn ailgylchu / yn ailgylchu cymaint â phosibl (yn y gwaith / amhenodol) | 8 |
| Eisoes yn ailgylchu gartref / dylai busnesau ailgylchu hefyd | 7 |
| Pryderon ynghylch cost / goblygiadau ariannol | 6 |
| Gorau po fwyaf / angen ailgylchu mwy / dylen ni ailgylchu cymaint â phosibl / popeth | 6 |
| Dylai pawb ei wneud / annog eraill i'w wneud | 5 |

Sail: y rhai o blaid y gyfraith newydd - Ebrill 2024 (382)

[4] *Gallai ymatebion gael eu haseinio i gategorïau rhesymau lluosog*

I'r gwrthwyneb, pan ofynnwyd iddynt pam eu bod yn gwrthwynebu'r gyfraith newydd, roedd y prif bryderon a grybwyllwyd yn ddigymell yn ymwneud â'r gost / goblygiadau ariannol (26% o'r BBChau a oedd yn gwrthwynebu'r gyfraith newydd), cymhlethdod / anhawster y broses ailgylchu neu ddidoli (19%), a chyfyngiadau amser / baich llwyth gwaith (14%). Dangosir y prif resymau eraill a roddwyd yn ffigur 5 isod:

**Ffigur 5: Prif resymau dros wrthwynebu'r gyfraith newydd (yn ddigymell)**

| | **%** |
|---|---|
| Cost / goblygiadau ariannol | 26 |
| Cymhlethdod / anhawster y broses ailgylchu neu ddidoli | 19 |
| Cyfyngiadau amser a baich llwyth gwaith | 14 |
| Ailgylchu eisoes yn cael ei wneud (dim angen am ddeddfwriaeth / rheoleiddio gan y llywodraeth) | 13 |
| Gwrthwynebu rheolaeth, ymyrraeth, rheoliadau, biwrocratiaeth gan y llywodraeth | 8 |
| Heriau ymarferol a phroblemau ei rhoi ar waith (arall / amhenodol) | 8 |
| Diffyg cymorth / cynhorthwy gan y llywodraeth | 7 |
| Diffyg lle / materion storio | 6 |
| Diffyg gwybodaeth (ddim yn gwybod digon amdani) | 5 |
| Anhawster cael staff neu gwsmeriaid i gydymffurfio / cefnogi | 5 |


Sail: y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r gyfraith newydd – Ebrill 2024 (77)

### 3.4 Lefelau o ran pa mor wybodus a pharod oedd BBChau

Fe wnaeth yr arolwg hefyd archwilio pa mor *wybodus* oedd busnesau'n teimlo ynglŷn â'r camau gweithredu yr oedd angen iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer y gyfraith ailgylchu.

Ym mis Ebrill 2024, dywedodd oddeutu un rhan o dair (34%) o'r BBChau a arolygwyd eu bod yn teimlo'n anwybodus ynglŷn â'r camau gweithredu a oedd yn ofynnol i baratoi ar gyfer y gyfraith newydd, gostyngiad sylweddol o'i gymharu â 70% ym mis Ebrill 2023. Yn y cyfamser, roedd cyfran y BBChau a oedd yn teimlo'n wybodus wedi cynyddu bron bedair gwaith drosodd, gan godi o 10% o'r ymatebwyr ym mis Ebrill 2023 i 39% ym mis Ebrill 2024. Er hynny, ar ôl yr ymgyrch mae'r gyfran sy'n teimlo'n anwybodus ar lefel debyg i'r rhai sy'n teimlo'n wybodus (34% o'i gymharu â 39%).

**Ffigur 6: Pa mor wybodus ydych / oeddech chi'n teimlo am y camau gweithredu y mae/yr oedd angen i'ch busnes eu cymryd i baratoi ar gyfer y gyfraith ailgylchu newydd? (%)**





*Sail: yr holl ymatebwyr (Ebrill 2023 = 503, Ebrill 2024 = 502)*

Ym mis Ebrill 2024, busnesau llai (yn ôl trosiant a nifer y cyflogeion) oedd leiaf tebygol o deimlo'n wybodus ynglŷn â'r camau gweithredu a oedd yn angenrheidiol i baratoi ar gyfer y gyfraith ailgylchu newydd. Ymhlith yr ymatebwyr â throsiant o lai na £100k, dywedodd 40% eu bod yn teimlo'n anwybodus, tra bo 35% o'r busnesau a arolygwyd â dim ond un cyflogai'n teimlo'r un fath. O'i gyferbynnu, dim ond 27% o fusnesau â throsiant uwch na £500k a 24% o'r rhai â 10 neu fwy o gyflogeion oedd yn teimlo'n anwybodus.

Yn ôl sector, BBChau a arolygwyd yn y sector *gwestai a gwasanaethau eraill* oedd fwyaf tebygol o fod wedi teimlo'n wybodus, gyda 45% yn dweud hyn, o'i gymharu â dim ond 27% yn y sector *Adeiladu a Thrafnidiaeth/Cyfathrebu*.

Pan ofynnwyd iddynt am eu *parodrwydd* ar gyfer y gyfraith ailgylchu newydd, dywedodd tri chwarter (76%) y BBChau a arolygwyd eu bod yn teimlo naill ai'n barod 'iawn' neu'n 'weddol' barod erbyn mis Ebrill 2024, sy'n gynnydd o'i gymharu â 64% ym mis Ebrill 2023. Yn nodedig, fe gododd canran y rhai a oedd yn teimlo'n 'barod iawn' o 29% i bron hanner yr ymatebwyr (49%). Hefyd, dynododd oddeutu un ymhob deg (11%) nad oeddent yn barod o gwbl, i lawr o 18% ym mis Ebrill 2023.

**Ffigur 7: Pa mor barod yw / oedd eich busnes neu sefydliad ar gyfer y gyfraith ailgylchu newydd? (%)**




*Sail: yr holl ymatebwyr (Ebrill 2023 = 503, Ebrill 2024 = 502)*

Fel yr oedd hi gyda pha mor wybodus yr oedd BBChau'n teimlo, busnesau llai o ran trosiant oedd leiaf tebygol o deimlo'n barod ar gyfer y gyfraith ailgylchu newydd. Ymhlith y rhai â throsiant o lai na £100k, dywedodd 71% eu bod naill ai'n weddol barod neu'n barod iawn, tra bo 84% o fusnesau â throsiant uwch na £500k yn teimlo'r un fath.


Yn ôl sector, BBChau yn y sector *Gwestai a gwasanaethau eraill* oedd fwyaf tebygol o fod wedi teimlo'n barod, gydag 82% o'r ymatebwyr o'r sector hwn yn dweud hyn, o'i gymharu â 67% yn y sector *Amaethyddiaeth, Pysgota a Chyfleustodau*, a 68% yn y sector *Adeiladu a Thrafnidiaeth/Cyfathrebu*.

### 3.5 Ymwybyddiaeth o gyfathrebu a'i effaith

Fe wnaeth yr arolwg hefyd fesur ymwybyddiaeth o hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata am y gyfraith newydd ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i weld yr ymgyrch.

Erbyn mis Ebrill 2024, roedd bron i dair rhan o bump (58%) o holl BBChau Cymru a arolygwyd wedi gweld neu glywed unrhyw gyfathrebu am y gyfraith newydd – cynnydd o 6% a gofnodwyd yn yr arolwg sylfaenol ym mis Ebrill 2023.

**Ffigur 8: Ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata am y gyfraith newydd hon yn ddiweddar? (%)**




*Sail: yr holl ymatebwyr (Ebrill 2023 = 503, Ebrill 2024 = 502)*

Erbyn mis Ebrill 2024, o ganlyniad i weld neu glywed yr ymgyrch, dywedodd dwy ran o bump (40%) o'r 331 o BBChau Cymru a arolygwyd ac a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch eu bod wedi cymryd camau gweithredu. Roedd y camau gweithredu mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- 21% yn cysylltu â chludwr gwastraff preifat
- 15% yn estyn allan at eu Hawdurdod Lleol
- 15% yn mynd at wefan Llywodraeth Cymru
- 6% yn ymweld â gwefan arall

*Sail: pawb oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch (Ebrill 2024 = 331)*

## Atodiad – Holiadur Ymchwil Ebrill 2024

GWYBODAETH AM Y SAMPL: Rhanbarth / Nifer y Cyflogeion / Grŵp DDS:

**DARLLENWCH ALLAN**
Bore\Prynhawn da, XXXXXXXXXXXXXXXX yw fy enw i, o Beaufort Research.
Alla i siarad gyda'r perchennog neu'r Rheolwr Gyfarwyddwr os gwelwch yn dda?

GALLWCH GYNNAL Y CYFWELIAD GYDA'R PERCHENNOG, RHEOLWR GYFARWYDDWR (MD), PRIF WEITHREDWR, Y SAWL SY'N GYFRIFOL AM BENDERFYNIADAU ARIANNOL NEU GYFARWYDDWR ARALL

Gallwch - PARHEWCH
Na allwch – TREFNWCH APWYNTIAD OS YN BOSIBL A DEWCH Â'R SGWRS I BEN

**GOFYNNWCH I UWCH AELOD O STAFF:**
Bore\Prynhawn da, XXXXXXXXXXXXXXXX yw fy enw i, o Beaufort Research.
Rydym yn cynnal arolwg byr ar ran Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â busnesau yng Nghymru ac fe hoffwn i ofyn ychydig o gwestiynau i chi. Ni ddylai gymryd mwy na rhyw 10 munud. Bydd eich holl ymatebion yn gwbl gyfrinachol.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir gennym megis oedran a rhywedd yn cael ei defnyddio at ddibenion ymchwil. Bydd eich atebion yn cael eu cyfuno â phobl eraill y byddwn yn cyfweld â hwy, fel y gellir adrodd ar ganfyddiadau'r ymchwil ymhlith grwpiau wedi'u cydgrynhoi (e.e. y rhai 16-34 oed, dynion, a.y.b..).

Oes gennych chi amser i ateb ychydig o gwestiynau os gwelwch yn dda? Mae gennych hawl i dynnu eich cydsyniad i gymryd rhan yn ôl ar unrhyw adeg.

**QRA. Ydych chi'n hapus i barhau (yn awr neu rywbryd eto)?**

01: Ydw
02: Nac ydw

**RQ1**. **Mae'r cwestiynau ar eich cyfer ar gael gen i yn Gymraeg neu yn Saesneg – pa un fyddai orau gennych?**

01: Gwell gen i Saesneg
02: Gwell gen i Gymraeg

**CA. Alla i ofyn beth yw eich swydd yn eich cwmni\sefydliad?**
**CWESTIWN I HOLI YMHELLACH: Beth yw teitl eich swydd ar hyn o bryd?**

**CB. Ac allech chi ddweud wrthyf beth yw prif weithgaredd a natur eich busnes\sefydliad yn eich lleoliad?**

HOLWCH YMHELLACH I GAEL MANYLION: (e.e. "Beth sy'n cael ei weithgynhyrchu?", a.y.b.)

**CC. Allwch chi ddweud wrthyf faint o bobl sy'n cael eu cyflogi'n barhaol ar y cyfan gan eich busnes YN EICH LLEOLIAD CHI, yn llawn-amser ac yn rhan-amser a chan eich cynnwys chi eich hun?**

01: Un, dim ond fi
02: 2 i 4
03: 5
04: 6 i 9
05: 10
06: 11 i 24
07: 25 i 49
08: 50 i 99
09: 100 i 149
10: 150 i 199
11: 200 i 250
12: 251+ ➔ DIOLCHWCH A DEWCH Â'R SGWRS I BEN

**C1. A yw eich busnes neu sefydliad yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy oddi wrth ei wastraff cyffredinol ar hyn o bryd?** *Newidiwch drefn y raddfa rhwng cyfweliadau*

Ydym, rydym yn ailgylchu popeth y gallwn ni
Ydym, rydym yn ailgylchu rhai deunyddiau ond nid popeth
Nac ydym, dydyn ni ddim yn ailgylchu o gwbl

**C2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru mewn perthynas ag ailgylchu ar gyfer gweithleoedd?**

Ydw
Nac ydw
Ddim yn gwybod

**C3. Ym mis Ebrill 2024, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl fusnesau, sefydliadau yn y sector cyhoeddus (megis y llywodraeth a'r GIG) ac elusennau yng Nghymru wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy mewn ffordd debyg i'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai. Mae'r gyfraith wedi'i bwriadu i gynyddu swm y gwastraff a ailgylchir yng Nghymru.**

**Cyn heddiw, faint oeddech chi'n ei wybod am y gyfraith newydd hon?**

Roeddwn i wedi clywed amdani ac yn gwybod cryn dipyn amdani
Roeddwn i wedi clywed amdani ond doeddwn i ddim yn siŵr o'r manylion
Doeddwn i ddim wedi clywed amdani
Ddim yn gwybod

**C4. Beth yw eich barn ynglŷn â'r gyfraith newydd hon – ydych chi …?**

| | |
|---|---|
| Yn gryf o blaid | - Gofynnwch C5a |
| O blaid | - Gofynnwch C5a |
| Yn erbyn | - Gofynnwch C5b |
| Yn gryf yn erbyn | - Gofynnwch C5b |
| Heb farn | - Ewch at C6 |
| Ddim yn gwybod | - Ewch at C6 |

**C5a. Pam ydych chi'n dweud hynny [os ydynt o blaid]?** *Cofnodwch air am air*

____________________________

**C5b. Pam ydych chi'n dweud hynny [os ydynt yn erbyn]?** *Cofnodwch air am air*

____________________________

**GOFYNNWCH I BAWB**

**C6. Pa mor wybodus oeddech chi'n teimlo am y camau gweithredu yr oedd angen i'ch busnes/sefydliad eu cymryd i baratoi ar gyfer y gyfraith ailgylchu newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024?** *Darllenwch allan – trefn y raddfa i gael ei newid rhwng cyfweliadau*

- Roeddwn i'n teimlo'n wybodus ynglŷn â'r hyn yr oedd angen i'm busnes/sefydliad ei wneud
- Roeddwn i'n teimlo'n weddol wybodus ynglŷn â'r hyn yr oedd angen i'm busnes/sefydliad ei wneud
- Doeddwn i ddim yn teimlo'n wybodus ynglŷn â'r hyn yr oedd angen i'm busnes/sefydliad ei wneud
- Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH I BAWB**

**C7. Pa mor barod oedd eich busnes neu sefydliad ar gyfer y gyfraith ailgylchu newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024?** *Darllenwch allan – trefn y raddfa i gael ei newid rhwng cyfweliadau*

- Yn barod iawn
- Yn weddol barod
- Ddim yn barod iawn
- Ddim yn barod o gwbl
- Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH I BAWB**

**C9. Dyma rai rhesymau pam allai busnesau a sefydliadau gefnogi'r gyfraith newydd. Pa rai o'r rhain ydych chi'n cytuno â hwy, os o gwbl?** *Darllenwch allan – codiwch bob un a grybwyllir*

Mae'n well i'r amgylchedd
Bydd yn lleihau swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi / yn cael ei losgi
Gallai arbed arian i fusnesau/sefydliadau
Mae'n dda bod busnesau/sefydliadau'n gwneud eu rhan
Bydd cyflogeion yn ei chefnogi
Mae'n hen bryd ei chyflwyno
Mae'n dangos ymagwedd amgylcheddol busnesau/sefydliadau
Mae'n bwysig bod busnesau/sefydliadau'n gweithredu ar newid hinsawdd

Dim o'r rhain
Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH I BAWB**

**C10. Dyma rai rhesymau pam allai busnesau a sefydliadau beidio â chefnogi'r gyfraith newydd. Pa rai o'r rhain ydych chi'n cytuno â hwy, os o gwbl?** *Darllenwch allan – codiwch bob un a grybwyllir*

Mae'n costio mwy i fusnesau/sefydliadau ei wneud
Mae'n llawer o drafferth
Nid oedd digon o gymorth ar gael i helpu busnesau/sefydliadau i fod yn barod
Diffyg lle ar gyfer biniau
Nid yw wastad yn hawdd gwybod beth ellir ac na ellir ei ailgylchu
Mae cyflogeion yn erbyn y peth
Nid oedd llawer o amser i fod yn barod ar gyfer y gyfraith newydd
Ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol i'r amgylchedd

Dim o'r rhain
Ddim yn gwybod

**C11. Ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata am y gyfraith newydd hon yn ddiweddar?**

Do
Naddo

**GOFYNNWCH OS OEDDENT YN YMWYBODOL O HYSBYSEBU/CYFATHREBU/MARCHNATA YN C10**

**C12. Ble welsoch chi neu glywoch chi'r hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata yma? Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

Post / llythyr uniongyrchol neu daflen drwy'r drws
Neges e-bost neu neges destun uniongyrchol
Hysbyseb mewn papur newydd / cylchgrawn
Erthygl mewn papur newydd / cylchgrawn
Hysbyseb ar-lein
Stori newyddion ar-lein
Hysbysfyrddau a sgriniau digidol yn yr awyr agored
Posteri
Hysbyseb ar y radio
Newyddion ar y radio
Cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram, Twitter)
Hysbyseb ar y teledu
Newyddion / rhaglen ar y teledu
Ar lafar gwlad

Arall (rhowch fanylion) ______________________
Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH OS OEDDENT YN YMWYBODOL O HYSBYSEBU/CYFATHREBU/MARCHNATA YN C10**

**C13. Beth oedd prif neges yr hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata a welsoch chi? Beth oedd yn ceisio ei ddweud?** YSGRIFENNWCH AIR AM AIR

__________________________________________________

Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH I BAWB – chwaraewch hysbyseb radio (Fersiwn Saesneg i'r rhai sy'n cael y cyfweliad yn Saesneg; fersiwn Gymraeg i'r rhai sy'n cael y cyfweliad yn Gymraeg)**

**C14. Ydych chi wedi clywed yr hysbyseb hon yn ddiweddar?**

Do
Naddo

***GOFYNNWCH I BAWB OEDD YN YMWYBODOL O'R YMGYRCH***

**C15. Pa rai o'r camau gweithredu hyn, os o gwbl, gymeroch chi o ganlyniad i glywed/gweld yr ymgyrch?** *Darllenwch allan – gallwch roi mwy nag un cod*

Mynd at wefan Llywodraeth Cymru
Mynd at wefan arall (rhowch fanylion) _______________
Cysylltu â chorff sy'n cynrychioli busnesau (e.e. Siambr Fasnach, CBI Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru)
Cysylltu â chludwr gwastraff preifat i helpu
Cysylltu â'm Hawdurdod Lleol

Cymryd cam gweithredu arall (rhowch fanylion) _________________
Dim o'r rhain *(un cod)*

*CWESTIYNAU DOSBARTHIAD:*

**C16.** Allwch chi ddweud wrthyf pryd ddechreuodd eich busnes\sefydliad?

01: Llai na blwyddyn yn ôl
02: 1 i 2 flynedd yn ôl
03: 2.1 i 3 blynedd yn ôl
04: 3.1 i 4 blynedd yn ôl
05: 4.1 i 5 mlynedd yn ôl
06: 5.1 i 7 mlynedd yn ôl
07: 7.1 i 10 mlynedd yn ôl
08: 10.1 i 15 mlynedd yn ôl
09: 15.1 i 20 mlynedd yn ôl
10: 20.1 i 25 mlynedd yn ôl
11: 25.1 i 30 mlynedd yn ôl
12: 30.1 i 40 mlynedd yn ôl
13: Mwy na 40 mlynedd yn ôl

**C17.** Beth oedd amcan werth y trosiant (neu gyfanswm refeniw gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf? Atebwch mewn perthynas â'r lleoliad hwn yn unig. DARLLENWCH ALLAN FEL Y BO ANGEN

01: O dan £100k
02: £100k i £200k
03: £201k i £300k
04: £301k i £500k
05: £501k i £750k
06: £751k i £1 miliwn
07: £1.1 miliwn i £5 miliwn
08: £5.1 miliwn i £10 miliwn
09: £10.1 miliwn i £50 miliwn
10: £50.1 miliwn i £100 miliwn
11: Dros £100 miliwn

**C18.** A yw eich cwmni neu fusnes yn is-gwmni, neu uned weithredu, a berchnogir yn llawn gan gwmni mwy?

01: Ydy, is-gwmni\uned weithredu a berchnogir yn llawn
02: Nac ydy, y naill na'r llall

**C19.** A yw eich cwmni'n un a berchnogir yn y DU gan mwyaf ynteu'n rhan o grŵp rhyngwladol sydd â'i bencadlys y tu allan i'r DU?

01: Un a berchnogir yn y DU
02: Grŵp rhyngwladol
03: Arall (rhowch fanylion) *AGORED

**C20.** Ac ym mha awdurdod lleol mae eich busnes wedi'i leoli?

01: Môn
02: Blaenau Gwent
03: Pen-y-bont ar Ogwr
04: Caerffili
05: Caerdydd
06: Sir Gâr
07: Ceredigion
08: Conwy
09: Sir Ddinbych
10: Sir y Fflint
11: Gwynedd
12: Merthyr Tudful
13: Sir Fynwy
14: Castell-nedd Port Talbot
15: Casnewydd
16: Sir Benfro
17: Powys
18: Rhondda Cynon Taf
19: Abertawe
20: Torfaen
21: Bro Morgannwg
22: Wrecsam

---

DARLLENWCH ALLAN:
**Diolch i chi am eich amser.**

Dim ond i gadarnhau mai XXXXXXXXXX yw fy enw i, yn galw o Beaufort Research a bod yr arolwg hwn wedi cael ei gynnal yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

Os hoffech wirio ein manylion, gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS) gan ddefnyddio'r rhif rhadffôn 0800 975 9596. Gallaf hefyd ddarparu copi i chi o Bolisi Preifatrwydd Beaufort os ydych yn dymuno.

Diolch eto a hwyl fawr.